Llywodraeth Cymru
Welsh Government

2024

# Prif Gynghorydd Optometrig Cymru: Golwg ar Ofal Llygaid



Prif Gynghorydd Optometrig Cymru, David O'Sullivan OBE

## Cynnwys


1. 2024: Blwyddyn nodedig i ofal llygaid yng Nghymru
2. Blwyddyn mewn Rhifau: Galw cynyddol am ofal llygaid. Gweithgarwch gofal llygaid sylfaenol ar ei lefel uchaf erioed, straeon newyddion da
3. Effaith llwybrau Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) ar ofal llygaid
4. Sefydlu atal a llesiant: dull Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC)
5. Optometreg yng Nghymru: gweithlu sy'n tyfu, dyfodol disglair
6. Edrych ymlaen: dyfodol optometreg yng Nghymru
7. I gloi: Llwybr Blaengar Tua'r Dyfodol
8. Manylion Cyswllt ac Adnoddau


## Annwyl Gydweithwyr

Wrth inni gwblhau blwyddyn brysur arall, hoffwn fachu ar y cyfle i ddiolch i chi am eich ymroddiad a'ch gwaith caled yn ystod 2023-2024. Bu'n flwyddyn bwysig o bontio ar gyfer y proffesiwn optometreg yng Nghymru, gyda datblygiadau sylweddol o safbwynt darparu gwasanaethau gofal llygaid. O'r gwaith cydweithredol gydag offthalmoleg a chyflwyno llwybrau newydd, i gyflwyno rheoliadau allweddol a sefydlu pwyllgorau goruchwylio, mae eleni wir wedi nodi trobwynt yn esblygiad iechyd llygaid y genedl.

Yn y rhifyn hwn o ***Golwg ar Ofal Llygaid***, rydyn ni'n dathlu ein cyd-lwyddiannau ac yn edrych ymlaen at ddyfodol optometreg yng Nghymru. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n parhau i greu gwasanaethau gofal llygaid sy'n fwy hygyrch, yn fwy cynhwysfawr, ac wedi'u hintegreiddio i'r system gofal iechyd ehangach.

## 2024: Blwyddyn nodedig i ofal llygaid yng Nghymru

### Fframweithiau Rheoleiddio newydd

Eleni, mae Cymru wedi cyflwyno **Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Rhif 2) 2024** a **Chyfarwyddydau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru (Rhestr Weinyddol) (Cymru) 2024**, sy'n cyd-fynd â **Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023** a **Rheoliadau'r GIG (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023**.

Mae'r rheoliadau hyn yn cwblhau'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer llwybrau 1-5 **Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS).**

Gyda'r newidiadau hyn, rydyn ni bellach mewn gwell sefyllfa i ddarparu gofal llygaid teg o ansawdd uchel ledled y wlad.

Mae **Pwyllgor Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru**, sy'n goruchwylio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar draws y Byrddau Iechyd, hefyd yn ddatblygiad allweddol. Dan gadeiryddiaeth Jill Paterson, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Hirdymor ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda, bydd y pwyllgor hwn yn parhau i werthuso llwybrau WGOS a sicrhau bod y proffesiwn yn esblygu mewn ymateb i anghenion datblygol.


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51163
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Straeon newyddion da

## Blwyddyn mewn Rhifau: Galw Cynyddol am ofal llygaid. Gweithgarwch gofal llygaid sylfaenol ar ei lefel uchaf erioed.

Mae gweithredu'r WGOS newydd wedi arwain at flwyddyn hynod lwyddiannus i wasanaethau gofal llygaid sylfaenol GIG Cymru, gan dorri sawl record. Yn 2023-2024, **cafodd dros 841,000 o brofion golwg** eu hawlio, sydd **6.6% yn uwch** na'r flwyddyn flaenorol, Yn ogystal, cynhaliwyd **243,000 o archwiliadau** dan WGOS 2, gan adlewyrchu **cynnydd o 15.8%** yn y galw.

Mae ystadegau allweddol eraill yn cynnwys:

- **8,400 o asesiadau golwg isel** yn WGOS 3 **cynnydd o 3.7%** ers y flwyddyn flaenorol.
- Mae **101 o gleifion sydd wedi colli eu golwg** wedi'u hardystio gan ofal sylfaenol, sy'n 29% o'r holl ardystiadau ar gyfer dirywiad maciwlaidd atroffig sy'n gysylltiedig ag oedran a gyflawnir yng Nghymru (Cyfanswm n=352). O'r rheiny cafodd 18% (n=18) eu cyflawni ar ffurf asesiad symudol yng nghartref yr unigolyn dan sylw.

**Ystadegau gofal llygaid: Ebrill 2023 – Mawrth 2024 | LLYW.CYMRU**

Mae'r ffigurau hyn yn dangos y cynnydd o ran mynediad at ofal llygaid, yn enwedig yn y gymuned, ac yn pwysleisio rôl bwysig optometryddion wrth reoli cyflyrau mwy cymhleth.

Mae'r llwybr Ardystio Amhariad ar y Golwg wedi cael croeso arbennig, gydag **Owen Williams, Cyfarwyddwr Cyngor Cymru i'r Deillion yn dweud**:

- *"Rydyn ni wrth ein bodd bod cymaint o gleifion ag AMD sych dwyochrog wedi derbyn Ardystiad Amhariad ar y Golwg ar y stryd fawr neu yn eu cartref eu hunain. Diolch i daflen gysylltiedig, mae'r cleifion hyn wedi cael gafael ynghynt ar gymorth ychwanegol, budd-daliadau lles, consesiynau ariannol a gwasanaethau mewn gofal cymdeithasol, y trydydd sector, a mannau eraill; gan eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth a'u llesiant ar adeg anodd."*

## Effaith llwybrau WGOS ar ofal llygaid

Mae data diweddaraf GIG Cymru yn dangos **cynnydd o 17%** mewn cyfnodau clinigol ar gyfer hanner cyntaf 2024-2025, gyda **591,370 o gysylltiadau** wedi'u hadrodd. Os bydd y duedd hon yn parhau, byddwn ar y trywydd iawn i ragori ar **1.18 miliwn o gysylltiadau** erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n naid sylweddol ar **1.01 miliwn** y llynedd. Mae'r twf hwn yn dangos symudiad parhaus tuag at sefydlu gofal sylfaenol fel y canolbwynt ar gyfer gwasanaethau iechyd llygaid, gydag optometryddion yn arwain y ffordd o ran rheoli iechyd y llygaid a darparu gofal gwell yn y gymuned.

## Sefydlu atal a llesiant: dull Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif

Yn 2024, rydyn ni'n parhau i bwysleisio pwysigrwydd **atal** a **llesiant** ym maes gofal llygaid. Mae pwyslais Llywodraeth Cymru ar atal fel rhan o'i strategaeth iechyd yn cyd-fynd â'r pwyslais cynyddol ar wasanaethau gofal sylfaenol fel y llinell amddiffyn gyntaf.

Fel rhan o'r newid hwn, rydyn ni wedi sefydlu dull Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC yn Saesneg, sef **M**aking **E**very **C**ontact **C**ount **(MECC)** yn ein llwybrau WGOS. Drwy MECC, mae optometryddion ac optegwyr cyflenwi yn cael eu hannog i ddefnyddio pob cysylltiad â chlaf fel cyfle i hyrwyddo dewisiadau ffordd iach o fyw, atal clefydau, a chefnogi llesiant meddyliol.

Mae MECC yn rhoi'r grym i weithwyr proffesiynol gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion fel bwyta'n iach, rhoi'r gorau i smygu, ymarfer corff, ac iechyd meddwl – y gall pob un ohonyn nhw gael effaith ddwys ar iechyd ac ansawdd bywyd hirdymor cleifion. Mae pob cyswllt yn gyfle i wneud gwahaniaeth mawr, ac mae'n ysbrydoledig gweld cymaint ohonoch yn cofleidio'r dull hwn.

# Optometreg yng Nghymru: gweithlu sy'n tyfu, dyfodol disglair

## *Arolwg Gweithlu Cofrestryddion a Chanfyddiadau y Cyngor Optegol Cyffredinol 2024 (GOC Registrant Workforce and Perceptions Survey 2024 | GeneralOpticalCouncil)*

### Boddhad yn y Proffesiwn

**Mae Cymru'n parhau i weld cyfraddau uwch o ran boddhad mewn swydd.** Mae hyn yn bennaf yn sgil ehangu gwasanaethau clinigol a'r cyfle i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau estynedig drwy lwybrau WGOS. Mae optometryddion sydd â chymwysterau uwch a'r rhai sy'n ymwneud â darparu gofal estynedig yn teimlo bod eu gwaith yn rhoi mwy o foddhad. Yn hyn o beth, mae Cymru ar drywydd gwahanol i dueddiadau cenedlaethol y DU, sy'n dangos cynnydd mewn anfodlonrwydd ymhlith optometryddion.

Mae'r duedd hon yn tynnu sylw at sefyllfa unigryw Cymru, o safbwynt denu a chadw gweithwyr proffesiynol medrus, ac mae'n amlygu'r effaith gadarnhaol y gall gweithio ar frig eich trwydded glinigol ei chael ar foddhad mewn swydd. Mewn proffesiwn sy'n wynebu pwysau cynyddol, mae'r gallu i weithio hyd eithaf eich cwmpas a chael effaith uniongyrchol ar ofal cleifion yn rhywbeth i'w ddathlu.

**Darparu gwaith diddorol sy'n rhoi boddhad.** Roedd lefelau boddhad yn uwch ymhlith ymatebwyr â chymwysterau ychwanegol a'r rhai sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau estynedig. Roedd y ddau grŵp hyn, yn ogystal â'r rhai a oedd yn gweithio mewn ysbytai, yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n fodlon oherwydd bod eu gwaith yn ddiddorol ac yn rhoi boddhad.


### Mae darparu gwasanaethau gofal llygaid estynedig yn llawer mwy cyffredin yng Nghymru a Gogledd Iwerddon

Roedd ymatebwyr yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn llawer mwy tebygol o fod yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal llygaid estynedig o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr a'r Alban.

Yn Lloegr, roedd cyfran fwy o'r rhai a leolir yng ngogledd y wlad (56%) yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal llygaid estynedig o'i gymharu â gweddill y wlad.

**Ffigur 19 – Cysylltiedig â darparu gofal llygaid estynedig, fesul gwlad yn y DU**

Sylfaen: Lloegr (3,026); Cymru, (193); Yr Alban (387); Gogledd Iwerddon (132)





### Cyfleoedd gwell i ddatblygu yng Nghymru a'r Alban

Roedd y rhai sy'n gweithio yng Nghymru, ac i raddau llai yn yr Alban, yn fwy tebygol o gytuno â'r holl ddatganiadau am gyfleoedd datblygu.

Mae'r map isod yn dangos y lefel gyfunol o gytundeb ar draws y pedwar datganiad, gan dynnu sylw at y ffaith bod y rhai a oedd yn gweithio yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn llai tebygol o gytuno, o'u cymharu.

**Ffigur 89 – Cytuno â'r datganiad am gyfleoedd datblygu yn y gwaith, fesul gwlad yn y DU**

Sylfaen: Lloegr (3,026); Cymru (193); Yr Alban (387); Gogledd Iwerddon (132)



# Edrych ymlaen: Dyfodol Optometreg yng Nghymru

Gyda 2,000 a mwy o apwyntiadau y mis eisoes yn cael eu darparu dan **lwybr WGOS 5** a chyflwyno **WGOS 4** (llwybrau Glawcoma a Retina Meddygol) ar y gweill, mae dyfodol optometreg yng Nghymru yn ddisglair. Mae penodi **Jeremy Miles** fel Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn arwydd o ymrwymiad o'r newydd i gyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau gofal llygaid ymhellach. Mae ei her i symud ***"ymhellach ac yn gyflymach"*** yn tanlinellu'r elfen frys sydd yna i ddarparu gwasanaethau iechyd llygaid yn agos at y cartref a chryfhau rôl optometryddion o ran rheoli cyflyrau mwy cymhleth.

Wrth i'r proffesiwn barhau i dyfu ac esblygu, yr her i bractisau fydd sicrhau bod ganddyn nhw'r gweithlu priodol ar waith i ateb y galw cynyddol. Mae'n gyfnod cyffrous i optometreg yng Nghymru, ac mae mwy o gyfleoedd nag erioed ar gyfer twf a datblygiad proffesiynol ynghyd â chael effaith ar gleifion.

Mae arolwg gweithlu a chanfyddiadau y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) eto yn dangos y tueddiadau yng Nghymru sy'n gwthio hyn ymlaen:





Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Jeremy Miles, yn traddodi'r brif araith yn ein Cynhadledd Gofal Llygaid Flynyddol 2024

## Mwy o ddiddordeb mewn meithrin sgiliau gan y rhai sydd eisoes â chymwysterau ychwanegol, yn enwedig yng Nghymru

Roedd ymatebwyr a ddywedodd fod ganddyn nhw eisoes gymwysterau ychwanegol yn fwy tebygol o gynllunio i ennill mwy. Yn ogystal, roedd ymatebwyr o Gymru yn fwy tebygol o gynllunio i ennill cymwysterau neu sgiliau ychwanegol o gymharu â gweddill y DU, lle mae gan gyfran uwch o ymatebwyr yng Nghymru gymwysterau ychwanegol eisoes.

**Ffigur 70 – Bwriad i ennill cymwysterau/sgiliau ychwanegol drwy gymwysterau ychwanegol, fesul gwlad yn y DU**

Sylfaen: Cymwysterau ychwanegol (1,356); Dim cymwysterau ychwanegol (2,693); Lloegr (3,026); Cymru (193); Yr Alban (387); Gogledd Iwerddon (132)



## I gloi: Llwybr Blaengar Tua'r Dyfodol

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod trawsnewidiol, ac mae'r daith tuag at ddarparu gofal llygaid cynhwysfawr, hygyrch ac o ansawdd uchel ar waith ar draws y llwybr gofal llygaid cyfan. Rydyn ni ar drothwy cyfnod newydd ar gyfer optometreg yng Nghymru, lle mae optometryddion ac optegwyr cyflenwi yn cael eu grymuso i weithio ar frig eu trwydded glinigol a darparu gofal sy'n effeithiol ac yn rhoi boddhad.

Diolch unwaith eto am eich ymroddiad, eich arbenigedd, a'ch ymrwymiad i wella gofal llygaid y genedl. Gadewch i ni barhau i gofleidio'r cyfleoedd sydd o'n blaenau, gan gydweithio i ddarparu gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol eithriadol a fydd o fudd i bobl Cymru am genedlaethau i ddod.

**David O'Sullivan OBE,**
Prif Gynghorydd Optometrig Cymru

## Manylion Cyswllt ac Adnoddau

### Llywodraeth Cymru

Adborth ac eitemau i'w cynnwys yn rhifyn nesaf y cylchlythyr Golwg ar Ofal Llygaid:
**HSS-PrimaryCareMailbox@gov.wales**

Cysylltwch â'ch bwrdd iechyd lleol i siarad â'ch cynghorwyr optometrig lleol a chysylltiadau gofal sylfaenol eraill:

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:**
Cynghorydd Optometrig:
Catherine.McNamara1@wales.nhs.uk
ABB.PrimaryCareDepartment@wales.nhs.uk

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:**
Cynghorydd Optometrig – Swydd wag
bcu.pccoptometry@wales.nhs.uk

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:**
Cynghorydd Optometrig:
rukaiya.anwar2@wales.nhs.uk
Francesca.Lado3@wales.nhs.uk
optom.cav@wales.nhs.uk

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:**
Cynghorydd Optometrig:
sally.hodson2@wales.nhs.uk
PrimaryCareOptometry.HDD@wales.nhs.uk

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powy:**
Cynghorydd Optometrig:
Richard.Price@wales.nhs.uk
PrimaryCareGeneral.Powys@wales.nhs.uk

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe:**
Cynghorydd Optometrig:
Lyndsay.Hewitt@wales.nhs.uk
Mohammed.Islam2@wales.nhs.uk
sbu.pccoptometry@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am AaGIC cysylltwch â: heiw.optometry@wales.nhs.uk

### Dolenni defnyddiol

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 (legislation.gov.uk)

Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) (Rhif 2) 2024 https://www.llyw.cymru/cyfarwyddydaur-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gwasanaethau-gofal-llygaid-cymru-cymru-rhif-2-2024

Optometreg: sicrhau Cymru Iachach 2021 i 2031 | LLYW.CYMRU

Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau optometreg yn y dyfodol | LLYW.CYMRU

Ystadegau gofal llygaid: Ebrill 2023 – Mawrth 2024 | HTML LLYW.CYMRU

Arolwg Gweithlu Cofrestryddion a Chanfyddiadau y Cyngor Optegol Cyffredinol 2024 (GOC Registrant Workforce and Perceptions Survey 2024 | GeneralOpticalCouncil)